LC133

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**Y PWYLLGOR DEDDFAU ADRODDIAD** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) Diwygio (Cymru) 2000**

**Y Cefndir**

Roedd adrannau 15 a 36 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheoliadau yn dynodi'r oblygiadau ar awdurdodau iechyd i weinyddu gwasanaethau deintyddol cyffredinol ac i gyflawni y fath swyddogaethau rheoli neu eraill y gellir eu pennu. Mae'r pwer i wneud a diwygio'r fath reoliadau bellach yn nwylo'r Cynulliad Cenedlaethol**.**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gweinyddu gwasanaethau deintyddol cyffredinol (fel sydd ei angen uchod) wedi'i gynnwys, yn bresennol, yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) 1992.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau i Reoliadau 1992, y prif newid yw i wneud hi'n oblygiad ar ddeintyddion i gwblhau ffurflenni cais ar gyfer hawlio taliadau ac i gadw cofnodion fydd y deintydd yn gorfod cyflwyno ar gyfer eu harchwilio pan fo gofyn.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Cafodd Gynghorwyr Cyffredinol y Pwyllgor gyfle cynnar i edrych ar y Rheoliadau ac o ganlyniad mae un gwall drafftio a fyddai wedi codi o dan Rheol Sefydlog 11.5 wedi'i gywiro.

**Sylwadau Cyffredinol**

Yn yr un ffordd codwyd rhai pwyntiau gan y Cynghorwyr Cyffredinol ynglyn a'r rhifo a'r llythreniad ac awgrymwyd un newid drafftio. Mae'r rhain hefyd wedi'u cynnwys.

Er hyn mae yna ambell bwynt bach ar ôl.

**Nodyn Esboniadol**

Mae'n ymddangos fod yna wall ym mrawddeg ola' paragraff olaf ond un y Nodyn Esboniadol. Mae'n ymddangos fod angen y geiriau "to show" rhwng "the patient," a "that he" er mwyn i'r frawddeg wneud synnwyr (ac i ddilyn yr hyn sydd yn y testun Cymraeg). God fod y pwynt yma yn ymwneud â'r Nodyn Esboniadol, sydd ddim y ran cyfreithiol o'r offeryn, digon hawdd fydd newid hyn.

Mae'r fersiwn Gymraeg o baragraff olaf ond un y Nodyn Esboniadol hefyd yn cynnwys enghraifft arall o sut mae defnyddio iaith genedl niwtral yn gallu cymhlethu'r drafftio.

Mae yna hefyd mân wall teipograffyddol ym mharagraff ola'r Nodyn Esboniadol. Does dim bwlch rhwng "be" a "completed".

**Rheoliad 4(1)**

Mae un mân wall teipograffyddol arall i'w nodi. Mae colon ar ddiwedd Rheoliad 4(1) yn y fersiwn Gymraeg ac atalnod llawn yn y fersiwn Saesneg. Atalnod llawn sydd yn gywir gan fod y darpariaethau sy'n dilyn mewn fformat paragraffau ac nid is-baragraffau. Mater bach yw hyn gellir ei gywiro pan yn printio.

**Prof Nick Bourne**
Cadeirydd Dros Dro Y Pwyllgor Deddfau

**7 Tachwedd 2000**